Cyfoeth Naturiol Cymru
Cyfarfod y Bwrdd
21 Mai 2013

Teitl y Papur	Gweinyddu Ardaloedd Draenio Mewnol
Cyfeirnod y Papur:	Papur NRW B (O) 11.13 – Mai 2013
Paratowyd y Papur gan:	Steve Cook, Rheolwr – Strategaeth Perygl Llifogydd

Pwrpas y Papur:	**Trafod/Penderfynu**
Argymhelliad:	1. Bod Cyfoeth Naturiol Cymru'n annog diwygiad sylfaenol o fframwaith cyfreithiol yr Ardaloedd Draenio Mewnol i sicrhau agenda gynaliadwyedd fwy effeithiol ac effeithlon. 2. Bod y gwaith o weinyddu Ardaloedd Draenio Mewnol yng Nghymru yn cael ei wneud gan y sefydliad(au) mwyaf addas i'r gwaith o fewn y fframwaith diwygiedig hwnnw yn y dyfodol.
Y penderfyniad gofynnol:	I'r Bwrdd gefnogi'r Argymhellion

Effaith: Noder ei bod yn bosibl na fydd pob pennawd yn berthnasol i'r pwnc	**Effaith ar yr Amgylchedd**: Mae draenio tir effeithiol yn lleihau'r perygl o lifogydd ac yn gallu cynnal bioamrywiaeth gwlyptiroedd a gwerthoedd tirweddau **Effaith ar yr Economi**: Mae cyflawni'n gwaith yn effeithiol yn sicrhau ein bod yn dangos gwerth am arian i'r cymunedau sy'n talu am ein gwasanaeth **Effaith ar Gymunedau**: Mae'r perygl o lifogydd yn cael ei leihau gan ddiogelu eiddo a busnesau gwledig **Effaith ar Wybodaeth**: Amherthnasol

Y Mater dan sylw

1. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n darparu gwasanaethau draenio tir mewn Ardaloedd Draenio Mewnol a weinyddir gennym. Rydym wedi etifeddu'r gwasanaeth hwn a'r gwaith o'i reoli, ei weinyddu a'i ddarparu gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru.

2. Mae'r papur hwn yn amlinellu'r sail resymegol dros y trefniadau cyfredol, y ffactorau a fydd yn sbarduno newid yn y dyfodol a'r peryglon a'r cyfleoedd cysylltiedig.

Crynodeb

3. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n darparu gwasanaeth draenio tir ond dim ond yn yr un ar ddeg o ardaloedd draenio mewnol a weinyddir gennym. Mae'r gwaith o weinyddu'n cael ei gyflawni drwy swyddogaethau'r Bwrdd Draenio Mewnol (BDM).

4. Mae'r trefniadau cyfreithiol cyfredol yn ein rhwystro rhag darparu gwasanaeth effeithiol ac effeithlon sy'n sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion yr amgylchedd, y gymdeithas a'r economi leol. Mae angen llawer o ddiwygio.

5. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru'n ystyried trefniadau rheoli'r Ardaloedd Draenio Mewnol yn y dyfodol a disgwylir penderfyniad yr haf hwn. Un opsiwn yw i Cyfoeth Naturiol Cymru ymgymryd â gwaith rheoli'r pedair Ardal Draenio Mewnol arall yng Nghymru. Os dewisir yr opsiwn hwnnw heb ddiwygio'r fframwaith cyfreithiol bydd Cyfoeth Naturiol Cymru'n etifeddu peryglon a rhwymedigaethau sylweddol. Fodd bynnag, mae fframwaith wedi'i ddiwygio'n llwyr yn rhoi cyfle i Cyfoeth Naturiol Cymru gyflawni ei amcanion corfforaethol.

Cefndir

6. Caiff Ardaloedd Draenio Mewnol eu sefydlu mewn ardaloedd o dir isel yng Nghymru a Lloegr lle mae angen mesurau i reoli perygl o lifogydd ac i ddraenio tir yn barhaus er mwyn cynnal defnydd o dir amaethyddol a thir a ddatblygwyd.

7. Mae yna 15 o Ardaloedd Draenio Mewnol sydd yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru. Caiff yr ardaloedd dynodedig statudol hyn eu gweinyddu gan y Bwrdd Draenio Mewnol (ceir y cefndir yn Atodiad 1). Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n gweithredu fel Bwrdd Draenio Mewnol mewn un ar ddeg o'r Ardaloedd, pob un ohonynt yng Ngogledd-orllewin Cymru.

8. Mae yna dair o Ardaloedd Draenio Mewnol annibynnol sydd yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru:
   i. Mae BDM Rhannau Isaf Afon Gwy yn gweinyddu un Ardal sydd wedi'i rhannu rhwng Cymru a Lloegr
   ii. Mae BDM Powysland yn gweinyddu un Ardal yn bennaf yng Nghymru
   iii. Mae BDM Gwastadeddau Cil-y-Coed a Gwynllwg yn gyfan gwbl yng Nghymru ac yn gweinyddu dwy Ardal.

9. Mae rhannau sawl un o'r Ardaloedd Draenio Mewnol wedi'u dynodi yn SoDdGA gan eu bod yn wlyptiroedd. Mae nifer ohonynt mewn lleoliadau sydd o werth mawr ar sail eu tirwedd/cyfleoedd hamdden ac yn fannau poblogaidd i ymwelwyr.

10. Roedd Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn trosglwyddo rôl weithredol Asiantaeth yr Amgylchedd dros weinyddu'r Ardaloedd Draenio Mewnol o'i bwyllgorau llifogydd rhanbarthol (yn cynnwys Cymru) i Fwrdd Asiantaeth yr Amgylchedd. Roedd y Bwrdd yn cydnabod bod y trefniant hwn yn anfoddhaol oherwydd dylai'r Byrddau Draenio Mewnol gael eu hethol a chynrychioli'r rhai sy'n talu am eu gwaith ac yn elwa ohono. Felly, penderfynwyd cyflwyno trefniadau eraill (trosglwyddo i Fwrdd Draenio Mewnol/cwmni cydweithredol annibynnol neu ei ddiddymu). Bwriedir cwblhau hyn erbyn Hydref 2014 yn Lloegr.

11. Penderfynodd Asiantaeth yr Amgylchedd yng Nghymru roi'r gorau i hyn oherwydd bod Llywodraeth Cymru'n ymgynghori ar ddyfodol Byrddau Draenio Mewnol yng Nghymru (ymgynghoriad Mai-Awst 2012). Diben yr ymgynghoriad oedd chwilio am ddull mwy cyfannol o reoli adnoddau naturiol Cymru, cyflawni gwasanaethau cyhoeddus yn unol â safonau modern a materion llywodraethu sylweddol mewn perthynas â Bwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-Coed a Gwynllwg.

12. Gofynnodd Llywodraeth Cymru am sylwadau ar dri opsiwn ar gyfer cyflawni swyddogaethau BDM yn y dyfodol:
    1) Cyflawni drwy Fyrddau Draenio Mewnol fel ar hyn o bryd
    2) Cyflawni drwy Fyrddau Draenio Mewnol, gyda newidiadau i drefniadau llywodraethu
    3) Cyflawni drwy Cyfoeth Naturiol Cymru, gyda holl swyddogaethau'r BDM yn trosglwyddo iddo

    Datganodd Llywodraeth Cymru'n gyhoeddus ei bod yn ffafrio Opsiwn 3.

13. Roedd ymateb Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru i'r ymgynghoriad (Atodiad 2) yn nodi: a) bod angen diwygio'r sefyllfa gyfredol o ran BDM yng Nghymru'n sylweddol, a b) y dylid trosglwyddo holl swyddogaethau BDM, yn cynnwys swyddogaethau'r Asiantaeth, i Awdurdodau Lleol. Daeth pwyllgor Rheoli Peryglon Llifogydd Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru i'r un farn yn annibynnol. Nododd Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru y prif faterion canlynol:
    - heb ddiwygio deddfwriaethol sylweddol roedd nifer o'r Ardaloedd Draenio Mewnol yn anhyfyw yn y tymor hir, gallai Cyfoeth Naturiol Cymru etifeddu rhwymedigaethau ariannol sylweddol a chan mai sefydliad cenedlaethol ydoedd nid oedd atebolrwydd ar lefel leol
    - gallai opsiynau gwahanol fod yn briodol i amgylchiadau gwahanol Ardaloedd Draenio Mewnol
    - ni fyddai gweithio gyda BDM yn rhwystr i ddarparu polisi Cymru Fyw
    - byddai (fel rhan o Cyfoeth Naturiol Cymru) yn ymgymryd â rôl BDM ledled Cymru, os mai dyna fyddai penderfyniad Llywodraeth Cymru, ac yn cyflawni'r gwaith yn effeithiol ac effeithlon.

14. Nid oedd ymateb Cyngor Cefn Gwlad Cymru i'r ymgynghoriad (Atodiad 3) yn ffafrio opsiwn penodol. Yn hytrach, roedd yn rhoi sylwadau ar y meini prawf asesu dymunol ar gyfer pob opsiwn, er enghraifft:
    - y dylai unrhyw Fwrdd yn y dyfodol roi sylw dyledus i ddyletswyddau gwarchod natur statudol yn ogystal â dyletswyddau draenio er mwyn sicrhau dull mwy cytbwys
    - mae'n rhaid parhau i reoli SoDdGA yn ystod unrhyw drosglwyddo
    - y ffordd orau o reoli bioamrywiaeth mewn Ardaloedd Draenio Mewnol oedd trwy'r Byrddau diwygiedig yn hytrach na'u diddymu'n llwyr – barn y Cyngor

Cefn Gwlad yn 2008 oedd y dylid trosglwyddo Ardaloedd Draenio Mewnol Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru i Fwrdd Rheoli Lefel Dŵr annibynnol.

15. Yn y crynodeb o ymatebion a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru (Mawrth 2013) nid oedd neb o blaid cadw at y trefniadau fel ag y maent ar hyn o bryd. Roedd 10% yn ffafrio Opsiwn Cyfoeth Naturiol Cymru a'r mwyafrif (77%) yn ffafrio Opsiwn 2 (BDMau diwygiedig). Dylid nodi mai BDMau oedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr neu bobl oedd â chysylltiadau â nhw. O'r pedwar corff amgylcheddol a ymatebodd, dim ond un oedd yn ffafrio Cyfoeth Naturiol Cymru.

16. Mae'n debygol iawn felly y bydd trefniadau gweinyddu Ardaloedd Draenio Mewnol yn newid yng Nghymru. Mae angen i Cyfoeth Naturiol Cymru benderfynu ar ei safbwynt i lywio trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru cyn unrhyw benderfyniad.

Cynigion

17. Argymhelliad 1: bod Cyfoeth Naturiol Cymru'n annog diwygio sylfaenol o fframwaith cyfreithiol yr Ardaloedd Draenio Mewnol i sicrhau agenda gynaliadwyedd fwy effeithiol ac effeithlon.

18. Argymhelliad 2: bod y gwaith o weinyddu Ardaloedd Draenio Mewnol yng Nghymru yn cael ei wneud gan y sefydliad(au) mwyaf addas i'r gwaith o fewn y fframwaith diwygiedig hwnnw yn y dyfodol.

19. Byddai fframwaith diwygiedig ar gyfer gweinyddu Ardaloedd Draenio Mewnol yn darparu trefniadau mwy effeithlon ar gyfer:

- cyflawni deddfwriaeth a pholisi amgylcheddol – dylai'r angen i gyflawni ystod eang o swyddogaethau a dyletswyddau sy'n cwmpasu bioamrywiaeth yn ogystal â draenio tir gael ei adlewyrchu'n well yng nghylch gwaith a theitl y Bwrdd;
- gweinyddu - mae angen moderneiddio'r gofynion ymgynghori ac archwilio ond rhaid iddynt fod yn gymesur â chyllideb weithredol pob Ardal, a bodloni safonau gofynnol diwydrwydd dyladwy a thryloywder;
- cyllid – lleihau'r gwaith sydd ei angen i reoli llif cyllid ardollau a phraeseptau yn ôl ac ymlaen rhwng Awdurdodau Lleol, y BDM a Cyfoeth Naturiol Cymru;
- llywodraethu - mae angen trefniadau cynrychiolaeth leol mwy priodol i'r rhai sy'n talu am y gwaith ac yn elwa ohono.

20. Byddai hyn yn sicrhau bod y ddarpariaeth gwasanaeth ac atebolrwydd mor effeithiol ac effeithlon â phosibl o fewn tirwedd polisi datblygu cynaliadwy newydd Llywodraeth Cymru a Chymru Fyw. Byddai edrych ar ddiwygio o safbwynt gwrthrychol newydd yn golygu y gellid dewis y fframwaith gorau heb adael i ganlyniad a benderfynwyd ymlaen llaw ddylanwadu ar y penderfyniad.

21. Byddai Cyfoeth Naturiol Cymru'n cefnogi pa bynnag opsiwn a ddewisir, waeth a fydd yn cyflawni'r rôl ei hun neu'n cefnogi sefydliad arall, cyhyd â bod yr opsiwn hwnnw'n cynnig y dewis mwyaf effeithiol ar gyfer gweinyddu Ardaloedd Draenio Mewnol yn y dyfodol ac yn sicrhau'r manteision gorau posibl i'r amgylchedd, y gymdeithas ac economi Cymru.

Y Camau Nesaf

22. Mae Llywodraeth Cymru nawr yn bwriadu ystyried goblygiadau Opsiwn 2 ac Opsiwn 3 ymhellach ynghyd ag opsiwn ychwanegol sef bod yr Awdurdodau Lleol yn cyflawni'r gwaith. Bydd hyn yn debyg i'r ystyriaeth a gafwyd cyn penderfynu sefydlu Cyfoeth Naturiol Cymru ac yn cynnwys trafodaethau gyda rhanddeiliaid allweddol, yn cynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru. Disgwylir penderfyniad terfynol yr haf hwn.

Risgiau

23. Mae'n rhaid i ni ddarparu ein gwasanaeth cyfredol mewn modd cost-effeithiol gyda fframwaith penderfynu sy'n cydymffurfio'n statudol. Mae'n rhaid i ni sicrhau cydbwysedd hefyd rhwng disgwyliadau cwsmeriaid hirdymor ynghylch draenio tir a diogelu a gwella'r amgylchedd. Os na fyddwn ni'n cael ein gweld yn cyflawni'r ddeubeth hyn bydd enw da'r sefydliad mewn perygl.

Goblygiadau Ariannol

24. Mae cyllideb Ardaloedd Draenio Mewnol flynyddol arferol Cyfoeth Naturiol Cymru yn £152,000. O'r gyllideb hon, caiff £100,000 ei godi drwy ardoll arbennig ar Awdurdodau Lleol a £52,000 drwy drethi ar dirfeddianwyr.

25. Yr incwm o'r tair Ardal Draenio Mewnol annibynnol yn 2011/12 oedd: Cil-y-Coed a Gwynllwg - £1.2 miliwn; Powysland - £83,000, a Rhannau Isaf Afon Gwy - £31,000. Mae Cil-y-Coed a Gwynllwg yn derbyn tua £1.19 miliwn gan Gynghorau Sir Casnewydd, Mynwy a Chaerdydd bob blwyddyn a thua £40,000 gan dirfeddianwyr. O'r incwm hwn, rydym yn derbyn praesept blynyddol o 50% o gost y gwaith rheoli perygl llifogydd a gwblheir gennym yn Ardal Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-Coed a Gwynllwg - £250,000 yn 2012/13 a £300,000 ar gyfer 2013/14.

Cyfathrebu

26. Bydd ein prif lwybrau cyfathrebu'n digwydd mewn gwrandawiad o'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ym mis Mai ac yna bydd y cyfan yn dibynnu ar benderfyniad Llywodraeth Cymru ar ddyfodol y Byrddau Draenio Mewnol yng Nghymru.

Materion Cyfreithiol a Chydymffurfiaeth

27. Yn dilyn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar faterion llywodraethu BDM Cil-y-Coed a Gwynllwg cysylltodd Llywodraeth Cymru ag Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, a sicrhaodd fod yna fframwaith penderfynu cadarn sy'n cydymffurfio'n statudol ar waith ar gyfer ei swyddogaethau ei hun ar gyfer Ardaloedd Draenio Mewnol a'u bod yn dilyn Egwyddorion Nolan ar gyfer bywyd cyhoeddus.

Atodiad 1 – Cefndir Byrddau Draenio Mewnol yng Nghymru
Atodiad 2 – Ymateb Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ddyfodol BDMau
Atodiad 3 – Ymateb Cyngor Cefn Gwlad Cymru i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ddyfodol BDMau